# TAI BACH CYHOEDDUS DOLWYDDELAN

Ers 2019, bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog y Cyngor Tref a Chymuned i gymryd yr awenau dros y tai bach cyhoeddus. Fe wnaeth Cyngor Cymuned Dolwyddelan achub ar y cyfle ac mae'n bleser ganddyn nhw gyhoeddi eu bod wedi meddiannu'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn y pentref ers Gorffennaf 2022.

Roedd y Cyfleusterau Cyhoeddus mewn cyflwr gwael ac yn hen ffasiwn iawn o ystyried ei bod hi'r unfed ganrif ar hugain. Erbyn hyn mae'r tai bach yn ystyriol o'r amgylchedd, yn gynaliadwy, yn gost effeithiol ac yn cydymffurfio gyda'r safonau modern gan gynnig ased gwerth ychwanegol i bentref Dolwyddelan. Gan fod y cyfleusterau ar hyd ffordd brysur yr A470 rhwng Llandudno a Chaerdydd mae llawer yn eu defnyddio wrth deithio heibio gan gynnwys trigolion y gymuned, ymwelwyr a cherddwyr. Bu Steve Teale sy'n byw'n lleol ac yn Rheolwr Cyfleusterau ar ran Cyngor Conwy yn gefnogol dros ben gyda datblygu'r prosiect hwn a bu'n cydweithio gyda'r Cynghorwyr Cymuned i bennu'r dyluniad, cynllun, lliwiau ac ati. Mae cydweithio'n hollbwysig er mwyn cyflawni'r amcan.

At hyn, mae man ail-lenwi poteli dŵr y tu allan i'r adeilad, yn ogystal â basged grog a logo Cyngor Cymuned Dolwyddelan wedi'i arddangos â balchder uwchben y drws.




Cynghorau Cymuned Dolwyddelan

Mae dyled y Cyngor Cymuned yn fawr i Zac Tatam o Arvon House am gytuno i ysgwyddo cyfrifoldeb fel Gofalwr y tai bach a chyflawni gwaith arbennig. Hoffwn estyn diolch o'r galon hefyd i Mr a Mrs Foster yn yr hen Swyddfa Bost am oddef yr holl waith adeiladu dros gyfnod gweddol o amser.

*Liz Roberts*

Os hoffech chi roi hysbyseb yng **Nghylchlythyr Dolwyddelan** cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.